Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth

# Cynllun diwygiedig a newidiadau arfaethedig yn y trefniadau gweinyddol.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad electronig hwn yw: 29 Ionawr 2010

## Rhaid i'ch sylwadau ddod i law erbyn y dyddiad hwnnw

:

Noder: Bydd yr wybodaeth a roddwch yn eich ymateb yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sy'n rhoi hawl i'r cyhoedd weld yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd yr wybodaeth a roddwch ar gael i'r cyhoedd gan fod eithriadau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth sy'n cael ei rhoi'n gyfrinachol a gwybodaeth y mae Deddf Diogelu Data 1998 yn gymwys iddi. Cewch ofyn i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol trwy dicio'r blwch isod, ond dylech nodi na fydd hyn, na datganiad cyfrinachedd ar e-bost sy'n cael ei greu'n awtomatig, o reidrwydd yn atal hawl y cyhoedd i weld yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| Ticiwch os ydych am i ni gadw'r ymateb yn gyfrinachol | |

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Sefydliad (lle bo'n gymwys) | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| E-bost/rhif ffôn | ucac@athrawon.com / 01970 639950 |
| Cyfeiriad: | UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU |

Dewiswch y blwch sy'n rhoi'r disgrifiad gorau ohonoch fel ymatebydd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sefydliad Addysg Uwch – Darparwr HCA | | Sefydliad sy'n rhanddeiliad allweddol â diddordeb mewn HCA | ✓ |
| Awdurdod lleol | | Ysgol a gynhelir | |
| Darpar hyfforddai | | Arall | |

| |
|---|
| Os arall, rhowch fanylion: (Undeb Athrawon a Darlithwyr) |

**Y Newidiadau Polisi Arfaethedig**

**1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i drosglwyddo gweinyddiaeth rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yng Nghymru i CCAUC ac i'r sector HCA diwygiedig?**

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | | Ddim yn siŵr | |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau:** Mae UCAC o'r farn bod hwn yn gam synhwyrol iawn; bydd yn golygu gwell gynllunio o ran niferoedd a blaenoriaethau hyfforddiant, gwell cyfathrebu gyda'r hyfforddeion a chefnogaeth sefydliadol, gwell arolygaeth, ac mi fydd yn osgoi rhai problemau fel statws cofrestru gyda Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

**2. Ydych chi'n cytuno â'r cynllun drafft, Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2010, sydd wedi'i amgáu fel Atodiad?**

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | | Ddim yn siŵr | |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau:** Cytunwn â'r Cynllun yn gyffredinol, ond hoffem ychwanegu'r pwyntiau canlynol:

- Yn y fersiwn Cymraeg, mae paragraff 3 yn ail-adrodd paragraff 2, ac mae'r paragraff cyfatebol o'r fersiwn Saesneg ar goll

- Nid yw'r term 'Hyfforddiant ar sail Cyflogaeth' yn gyfieithiad cywir o '*Employment-Based Training*' – yn hytrach mae'n awgrymu '*training on the basis of employment*', sy'n gamarweiniol. Awgrymwn yn hytrach 'Hyfforddiant yn y Gweithle' (Work-based training) sy'n llawer agosach at y fersiwn Saesneg ac yn llawer rhwyddach i'w ddeall

- Nid yw 'mewnlifiad' yn gyfieithiad cywir o '*intake*'; mae 'mewnlifiad' yn cael ei ddefnyddio, fel arfer, yng nghyd-destun niferoedd o bobl sy'n symud o un wlad i'r llall i fyw; byddai 'niferoedd sy'n cael eu derbyn' yn llawer agosach at y fersiwn Saesneg, er yn hirach

- Cytunwn yn llwyr â'r llwybr sy'n cael ei greu gan y RhSA sy'n caniatáu i athrawon/darlithwyr Addysg Bellach cymhwyso i fod yn athrawon ysgol; credwn ei bod hi'n briodol, ac yn hollbwysig yn sgil datblygiadau addysg 14-19, bod llwybr cyfatebol a fydd yn cymhwyso athrawon ysgol i addysg yn y sector addysg bellach

**3. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn a threfniadau monitro a sicrhau ansawdd, gan gynnwys y byddai'r ddarpariaeth EBTT yn cael ei harolygu gan Estyn?**

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | | Ddim yn siŵr | |
|---|---|---|---|---|---|

**4. Ydych chi'n cytuno y dylai niferoedd y targed mewnlifiad ynglŷn ag EBTT gael eu nodi ar wahân a hynny ochr yn ochr a niferoedd mewnlifiad HCA y brif ffrwd a leolir yn y prifysgolion?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | | **Ddim yn siŵr** | |

**5. Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig ynglŷn a gweinyddu a monitro'r cynllun yn lleol?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | | **Ddim yn siŵr** | |

**6. Ydych chi'n cytuno y bydd yr amserlen arfaethedig i ddod a'r newidiadau i mewn yn caniatáu digon o amser paratoi i'r darparwyr?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | | **Ddim yn siŵr** | |

**Sylwadau:** Mae UCAC yn credu bod yr amserlen a amlinellir yn rhesymol. Pwyswn ar bob corff perthnasol i gymryd yr amser ychwanegol hyn i gynllunio ar gyfer blaenoriaethau'r gweithlu, gyda phwyslais arbennig ar

(a) bynciau galwedigaethol (gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i'r sawl a fydd yn dilyn llwyr Rhaglen Athrawon Graddedig, a Hyfforddiant 'ar sail cyflogaeth' – gan ei fod yn bosib eu bod yn dod at addysgu ar ôl gweithio mewn proffesiwn arall

(b) athrawon sy'n gallu addysgu cyrsiau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol

**7. Ydych chi o'r farn bod y trefniadau trosiannol arfaethedig yn addas i hyfforddeion sy'n dechrau hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth cyn 2011/12?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | | **Ddim yn siŵr** | |

Diolch am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad.

**Dylid anfon yr holiaduron ar ôl eu cwblhau ar ffurf electronig at:**

**ebittsconsultation@wales.gsi.gov.uk**